# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

**CC(3)-07-09 : Papur 3: 7 Mai 2009**

## Ymchwiliad y Pwyllgor i Gyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru - casglu tystiolaeth - Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr

### Pwrpas

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am waith Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) a datblygiadau yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'r strwythur yn dilyn y materion a godwyd yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

2. Mae YJB yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor a'r cyfle i ddarparu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig am y pwnc pwysig hwn. Byddem yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod o gymorth i'r Pwyllgor.

### Cefndir a Chyflwyniad

### Rôl YJB

3. Corff Cyhoeddus Anadrannol yw YJB, a sefydlwyd gan Ddeddf Troseddu ac Anhrefn 1998. Ei rôl yw monitro a chefnogi perfformiad yn y system cyfiawnder ieuenctid yn unol â phrif nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid, sef "atal troseddu gan blant a phobl ifanc". Mae ei swyddogaethau statudol yn cynnwys:

- cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid a safonau ar ei chyfer
- monitro perfformiad y system cyfiawnder ieuenctid
- nodi a hybu arfer effeithiol
- cyflwyno grantiau i awdurdodau lleol a chyrff eraill i gefnogi datblygiad arfer effeithiol
- comisiynu ymchwil a chyhoeddi gwybodaeth.

4. Ar ben hynny, ers mis Ebrill 2000, bu YJB yn gyfrifol am wneud trefniadau i ddarparu llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd neu a remandiwyd gan y llysoedd. Mae YJB yn parhau'n gyfrifol am oruchwylio'r contractau a'r cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ar gyfer gwasanaethau llety diogel.

### YJB a Chymru

5. Yn amlwg mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldeb am feysydd polisi a ddatganolwyd, yn cynnwys addysg a hyfforddiant, iechyd, lles cymdeithasol, tai a llywodraeth leol, sydd i gyd yn hanfodol bwysig i'r system cyfiawnder ieuenctid. Ers datganoli, mae YJB wedi datblygu ei drefniadau gweithredu i adlewyrchu'r angen am weithio gyda phartneriaid ar feysydd cyfrifoldeb a ddatganolwyd a rhai heb eu datganoli.

6. Yn ogystal â gwaith swyddogion ym mhencadlys YJB yn Llundain, sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr, mae YJB wedi datblygu ei dîm YJB Cymru yn Abertawe, sydd bellach yn cynnwys deg o bobl, gydag un o'r swyddi, sydd wedi'i lleoli gyda'r Is-adran Diogelu Cymunedol ym Merthyr Tydfil, yn cael ei hariannu ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dirprwywyd cyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth a pholisi yng nghyswllt agweddau a ddatganolwyd ar gyflwyno cyfiawnder ieuenctid i Bennaeth YJB Cymru. Ar ben hynny, un o'r 12 aelod o Fwrdd YJB sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros Gymru, a gwnaed penodiad newydd yn ddiweddar ar sail eu gwybodaeth am gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

7. O ran gweithrediad Bwrdd YJB, datblygwyd trefniadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn penderfyniad i weithio'n fwy penodol yng Nghymru trwy gyfrwng Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan Dilynwyd hyn gan adolygu ac adnewyddu systemau cyflawni'r Strategaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8. Bellach nodwyd chwe maes blaenoriaeth y bydd Llywodraeth y Cynulliad a YJB yn canolbwyntio arnynt yn y blynyddoedd nesaf. Datblygwyd cyfres o ddangosyddion perfformiad i fonitro perfformiad a ffurfiwyd is-bwyllgorau ar y cyd o Bwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (YJCW) i sbarduno'r cyflawni.

9. Grŵp trawslywodraethol yw YJCW sy'n rhoi cyngor i YJB a Llywodraeth y Cynulliad ar weithredu Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan. O fis Mai 2009 ychwanegir ymhellach at ei rôl yn sgîl ad-drefnu is-bwyllgorau ffurfiol YJB a chreu Grŵp Busnes newydd trawsgyfarwyddiaethol i YJB Cymru.

10. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r trefniadau cyflawni ar gyfer y chwe maes blaenoriaeth.

| Maes Blaenoriaeth | Dangosydd Perfformiad | Goruchwyliaeth gan |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Ataliaeth | Lleihau nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru am y tro cyntaf. | Y Pwyllgor Ataliaeth, dan gadeiryddiaeth LlCC, Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. |
| Aildroseddu | Gostwng lefel yr aildroseddu profedig ymhlith pobl ifanc | Pwyllgor Lleihau Aildroseddu, dan gadeiryddiaeth YJB Cymru. |
| Cyfnod mewn dalfa | Lleihau cyfran y bobl ifanc sy'n derbyn euogfarn yn y llys a ddedfrydir i gyfnod mewn dalfa. | Pwyllgor Dalfeydd ac Ailsefydlu, dan gadeiryddiaeth YJB Cymru. |
| Dysgu a Chyflogaeth | Cynyddu ymwneud pobl ifanc sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. | Pwyllgor Dysgu a Chyflogaeth, dan gadeiryddiaeth LlCC, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. |
| Llety | Cynyddu mynediad i lety addas ar gyfer pobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. | Pwyllgor Llety, dan gadeiryddiaeth LlCC, Adran yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai. |
| Camddefnyddio Sylweddau | Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau a nodwyd yn cael mynediad yn brydlon i asesiad arbenigol a gwasanaethau triniaeth priodol. | Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, a gynullir gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. |

### Dull trosfwaol o ymdrin â chyfiawnder ieuenctid a chyflwyno llety diogel

11. Cred YJB yn bendant y dylid gweld y system cyfiawnder ieuenctid fel continwwm o ataliaeth gynnar cyn troseddu hyd at ailsefydlu wedi cyfnod yn y ddalfa. Y nod yw lleihau niferoedd y plant a'r bobl ifanc ar bob lefel. Ni ddylid gweld cyfnod mewn dalfa, felly, fel endid ar wahân, wedi'i ynysu oddi wrth weddill y system. Dylid ei weld fel rhan o ddull trosfwaol o ailsefydlu'r rhai a fu'n troseddu trwy ymateb i'r asesiad o'u hanghenion lles a'r ffactorau a allai beri iddynt droseddu eto.

12. Mae'r egwyddorion a geir yn Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan yn cyd-fynd â'r dull cyffredinol hwn. Ceir copi o'r adran berthnasol sy'n cyflwyno'r pum lefel bosib o ymyrraeth yn Atodiad A.

13. Yng nghyswllt cyfnodau yn y ddalfa a chomisiynu llety diogel, cyflwynodd YJB ei egwyddorion cyffredinol a'r rhagdybiaethau sy'n tywys ei waith yn ei strategaeth ddiwethaf ar fannau diogel (mae'r strategaeth yn cael ei diwygio ar hyn o bryd, a bydd yn destun ymgynghori'n ddiweddarach eleni). Yn y ddogfen cyflwynodd YJB ei ymrwymiad i ddefnyddio cyfnod yn y ddalfa fel cam terfynol yn unig, a hefyd y dylid parchu a chynnal hawliau plant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa. Ymhlith ffactorau arall, roedd yn cyflwyno nod YJB y dylai diwylliant pob sefydliad droi o amgylch y plentyn, meddu ar fesurau diogelu trylwyr, a sicrhau bod eu trefn yn ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc o ran addysg, hyfforddiant, hamdden, diwylliant a datblygiad personol.

### Cyd-destun

14. Mae Atodiad B yn cyflwyno rhai o'r ystadegau amlycaf am y system cyfiawnder ieuenctid. Nodir bod nifer y plant a'r bobl ifanc o Gymru sydd mewn dalfa ar unrhyw adeg benodol wedi gostwng yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Hefyd, er ein bod yn cydnabod bod angen gwella'r sefyllfa ymhellach, dengys y ffigurau ostyngiad sylweddol yng nghyfran y plant o Gymru a gedwir yn y ddalfa y tu allan i Gymru.

15. Er bod YJB yn ymroddedig i weithio i leihau nifer y dedfrydau mewn dalfa, mae'n werth nodi, fel cyfran o'r holl rybuddion a gorchmynion llys, bod dedfrydau mewn dalfa yn cynrychioli 3.4% o'r cyfanswm yng Nghymru yn 2007/08 (a 6% o'r holl orchmynion llys, heb gynnwys rhybuddion). Mae mwyafrif llethol y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn destun ymyrraeth gymunedol.

### Beth sydd wedi cael ei wneud i wella'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys profiad pobl ifanc sydd mewn mannau diogel

16. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi cael ei datblygu ochr yn ochr â'r trefniadau ar gyfer Lloegr, yn enwedig o ran swyddogaethau sydd wedi'u neilltuo'n llwyr i Lywodraeth y DU. Gwelwyd dargyfeiriant o ran yr elfennau o gyflwyno cyfiawnder ieuenctid sydd wedi'u datganoli, yn enwedig y trefniadau ar gyfer atal troseddu. Pwysleisiodd Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan 2004 bwysigrwydd ataliaeth fel y dull tymor hir mwyaf effeithiol o ostwng nifer y plant a'r bobl ifanc sydd â llawer o gysylltiad â'r system, gan gynnwys y nifer yn y ddalfa. Cadarnhawyd hyn mewn arweiniad ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad/YJB ar Atal Troseddau Ieuenctid, a

gyhoeddwyd yn 2007. Mae'r pwyslais ar ataliaeth wedi arwain at ddatblygu amrywiaeth o raglenni ataliaeth wedi'u targedu yng Nghymru, gan gynnwys Rhaglenni Cynhwysiad Ieuenctid a Phaneli Cynnwys a Chefnogi Ieuenctid. Yn y mwyafrif o achosion ariannir y rhaglenni hyn ar y cyd gan YJB a'r Gronfa Cymunedau Mwy Diogel. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru am y tro cyntaf. Ar yr un pryd, bu gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n aildroseddu a'r nifer o Gymru sydd yn y ddalfa.

17. Fel y nodwyd uchod, ers mis Ebrill 2000, YJB sydd wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu'r holl leoedd i rai 10-17 oed a ddedfrydwyd neu a remandiwyd i'r ddalfa gan y llysoedd. Er ein bod yn cydnabod yr angen am welliant parhaus, drwy weithio gyda darparwyr mannau diogel a thimau troseddau ieuenctid (TTIau), bu cyfres o welliannau pwysig yn y ddarpariaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- cynnydd o ran sefydlu mannau diogel annibynnol, ar wahân i oedolion, mewn cyferbyniad â'r sefyllfa cyn 2000, gan gynnwys cyfleusterau newydd i ferched
- sefydlu system leoliadau genedlaethol sy'n ceisio paru lleoliadau ac anghenion, yn amodol ar gyfyngiadau adnoddau
- gwelliannau yn y trefniadau gofal iechyd a'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- gwelliannau yn y trefniadau diogelu, gan gynnwys sgrinio ar gyfer risg ac angen, trosglwyddo gwybodaeth yn well, cyflwyno gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a buddsoddi mewn gwell amgylcheddau ffisegol
- gwelliannau yn y ddarpariaeth addysg, yn dilyn archwiliad cychwynnol o'r angen

18. Ar ben hyn mae YJB wedi ymgymryd â rhaglen TGCh sylweddol, Wiring Up Youth Justice, sydd wedi arwain at welliannau amlwg yng ngweithrediad y system a chyfnewid gwybodaeth ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn wedi cynnwys "eAsset", y system electronig newydd ar gyfer rheoli dedfrydau, sydd bellach ar waith ym mhob sefydliad, yn cynnwys Parc YOI a Chartref Plant Diogel Hillside. Mae'n galluogi staff mewn sefydliadau diogel i gofnodi penderfyniadau cynllunio dedfrydau a monitro cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Yn hollbwysig, gall staff ar draws y sefydliad dan sylw weld a diweddaru cynnydd person ifanc ac oherwydd bod y system yn cael ei defnyddio ar draws yr holl sefydliadau, gall ffeiliau achosion gael eu trosglwyddo'n hwylus o un sefydliad i'r nesaf pan fydd pobl ifanc yn symud. Mae'r rhaglen Wiring Up Youth Justice hefyd wedi cynnwys elfennau megis trosglwyddo gwybodaeth yn well i hysbysu penderfyniadau lleoli cychwynnol a derbyn pobl ifanc mewn sefydliadau diogel, ynghyd â gwaith parhaus i gysylltu TTIau yn well â sefydliadau diogel. Mae proses ymgynghori ar waith ar hyn o bryd i nodi blaenoriaethau ar gyfer unrhyw brosiectau o dan y rhaglen yn y dyfodol, ac ymgynghorwyd â chydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad.

19. Mae YJB yn cydnabod yn llawn fantais ceisio lleoli plant o Gymru mewn llety diogel yng Nghymru, ac rydym yn ymroddedig i gyflawni hyn lle bo modd o fewn y cyfyngiadau sydd arnom. Er bod angen yn parhau i leoli pobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr, mae nifer y lleoedd yng Nghymru wedi cynyddu, a lle nad oedd ond 5% o'r bobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau Cymreig ym Mehefin 2001, ym Mehefin 2008 roedd y ffigur yn 41%, ac ar ddiwedd mis Chwefror 2009 roedd fymryn dros 50%.

20. Cyflawnwyd y newid hwn yn bennaf trwy ehangu nifer y lleoedd a gomisiynwyd yn Parc YOI (i gyfanswm o 64), ochr yn ochr â buddsoddi i wella cyfleusterau. Fel yr adroddwyd hefyd i'r Pwyllgor, mae YJB yn ddiweddar wedi cytuno i gynyddu nifer y lleoedd yng Nghartref Plant Diogel Hillside, gyda chynnydd graddol o 14 i 17 o leoedd (15 o leoedd o fis Ebrill 2009 ac 17 o fis Ebrill 2010).

21. Bu YJB a Llywodraeth y Cynulliad yn trafod y posibilrwydd o ddatblygu lleoedd llety diogel yng Ngogledd Cymru. Er bod YJB yn cefnogi'r cynnig, mae'n ddibynnol ar argaeledd arian refeniw ychwanegol.

## Pa gamau dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i wella profiad plant o Gymru mewn mannau diogel a pha mor effeithiol yw Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â mannau diogel?

22. Mae adnewyddu Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan wedi arwain at lunio cynllun cyflawni newydd ar gyfer 2009-11, sydd i'w gyhoeddi'n fuan. Hysbyswyd cynnwys y cynllun cyflawni gan ymchwil ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wrth adolygu'r strategaeth, ac mae'n adlewyrchu'r canfyddiadau a drafodir isod.

23. Ynghyd â'n monitro rheolaidd ar y system cyfiawnder ieuenctid, yn cynnwys dadansoddi'r 18 cynllun cyfiawnder ieuenctid a gyflwynir gan TTIau yng Nghymru bob blwyddyn, mae'r gwaith hwn wedi arwain at nodi meysydd y mae angen eu gwella. Dylid nodi bod y meysydd hyn yn gysylltiedig â diffygion yn y gwasanaeth a ddarperir cyn, yn ystod ac wedi cyfnod yn y ddalfa i lawer o bobl ifanc sy'n cael eu cynnwys yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac yn y mwyafrif o achosion, maent hefyd yn destun pryder yn Lloegr.

24. Mae'r meysydd angen penodol yn cynnwys darparu addysg, hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd priodol; darparu llety addas er mwyn helpu i atal dedfryd mewn dalfa ac i alluogi rhyddhau cyn gynted â phosib; mynediad i driniaeth camddefnyddio sylweddau a luniwyd yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc; a darpariaeth iechyd meddwl arbenigol. Maes heriol ar gyfer plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn Lloegr yw mynediad i'r Cwricwlwm Cymreig a chyngor gyrfaoedd addas, yn arbennig, a all gael ei waethygu lle bo'r unigolion dan sylw yn Siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae diffyg lleoedd hyfforddi eisoes ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y gymuned, ac mae anhawster cyswllt â Gyrfa Cymru i'r rhai mewn mannau diogel yn Lloegr yn golygu bod oedi'n digwydd yn aml rhwng rhyddhau pobl ifanc a threfnu lle hyfforddi ar eu cyfer. Mae YJB yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i unioni'r sefyllfa hon, gyda'r nod o sefydlu gwasanaeth gyrfaoedd mewngymorth ar gyfer y sefydliadau hynny lle cedwir pobl ifanc o Gymru yn rheolaidd.

25. Mae'n ffaith anffodus y gall profiad y rhai a gedwir mewn llety diogel fod yn llai dryslyd, ac yn fwy sefydlog a rhagweladwy mewn rhai ffyrdd na'u profiad yn y gymuned. Mae mynediad i'w hawliau sylfaenol o ran addysg a hamdden heb ei lesteirio gan y rhagfarn y mae cyn-droseddwyr yn aml yn ei wynebu yn y gymuned; gall fod gwell cyfle i'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau difrifol gyrchu'r driniaeth y mae ei hangen arnynt; ac mae llawer o blant a phobl ifanc yn adrodd eu bod yn datblygu rhai o'r perthnasoedd mwyaf cynhyrchiol gydag oedolion cefnogol y maent wedi dod ar eu traws. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn mannau diogel

yn aml yn mynegi diffyg hyder yng ngallu plant a phobl ifanc i gyrchu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn y gymuned.

26. O dan gynllun cyflawni Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan, mae YJB a Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i ddiffinio pecyn o gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yng Nghymru a'r rhai sy'n dychwelyd wedi cyfnod yn y ddalfa yn Lloegr. Mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad, bydd YJB hefyd yn parhau i weithio i leihau nifer y dedfrydau mewn dalfa trwy nodi'r ardaloedd lle ceir cyfraddau uwch na'r cyfartaledd o gyfnodau yn y ddalfa a gweithio gyda nhw. Elfen allweddol wrth osgoi dedfrydau mewn dalfa yw darparu pecyn ymyrraeth yn y gymuned i roi sicrwydd i ynadon a barnwyr eu bod yn gallu rhoi dedfryd gymunedol yn hyderus i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, gan osgoi'r angen am gyfnod yn y ddalfa.

27. Datblygodd YJB y Rhaglen Oruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys (ISSP) fel dedfryd gymunedol gadarn sydd wedi cael ei hestyn a'i chefnogi ledled Cymru a Lloegr. Ar ben hyn, mae YJB yn profi rhaglen Maethu Dwys mewn tair ardal yn Lloegr fel dewis amgen uniongyrchol yn lle cyfnod yn y ddalfa. Mae'r rhaglen yn gynllun arloesol sy'n ceisio ymdrin â throseddu mynych trwy leoli person ifanc gyda gofalwr maeth a hyfforddwyd yn benodol yn hytrach nag yn y ddalfa. Cefnogir y gofalwyr gan dîm sydd wedi derbyn hyfforddiant therapi ymddygiad a sgiliau arbenigol eraill. Fe'i lluniwyd ar gyfer pobl ifanc yr asesir bod cysylltiad uniongyrchol rhwng eu hymddygiad a'u hamgylchiadau teuluol. Mae'r cynllun yn rhoi sgiliau bywyd ymarferol iddynt ac ymdeimlad o drefn sydd yn aml ar goll o'u bywydau. Ar yr un pryd, gwneir gwaith gyda theulu'r person ifanc i'w helpu i reoli ymddygiad a phennu ffiniau. Er nad yw'r gwerthusiad ffurfiol wedi'i gwblhau eto, yn ôl yr hanesion, mae effaith yr ardaloedd peilot wedi bod yn galonogol.

28. Byddem yn annog y Pwyllgor i ystyried manteision estyn y dull hwn yng Nghymru a byddem yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried cyfleoedd i ariannu gwasanaeth maethu dwys yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf, fel dewis amgen uniongyrchol yn lle cyfnod yn y ddalfa.

29. Yn Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan, ein hegwyddor oedd y dylai plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cwblhau dedfryd mewn dalfa wneud hynny mewn amgylchedd sy'n cynnal eu cysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau. Lle'r oedd modd, roeddem am i hynny gael ei gyflawni trwy ehangu'r mannau diogel i bobl ifanc yng Nghymru i gyfateb i'r galw. Pwysleisiwyd hefyd yr angen am wella darpariaeth hawliau sylfaenol, gwasanaethau arbenigol a threfniadau gofal mewn mannau diogel yn y ddwy wlad.

30. Wrth adolygu ac adnewyddu systemau cyflawni Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan, mae YJB a Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi pwyslais mwy dwys ar wella'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau cymunedol a mannau diogel. Mae'r cynllun cyflawni'n cyflwyno ystod o gamau gweithredu i sicrhau bod cyswllt yn cael ei gynnal rhwng y rhai sydd yn y ddalfa a'r gwasanaethau mae angen iddynt eu cyrchu adeg eu rhyddhau, megis addysg, cyngor gyrfaoedd a thai.

31. Mae gwaith YJB Cymru yn monitro a dadansoddi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn y gymuned yn cadarnhau'r materion a nodwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ganfyddiadau'r rhaglen arolygu bum mlynedd ar y cyd â'r TTIau, yn enwedig o ran bod yn agored i niwed a chynllunio cysylltiedig â risg. Ymhellach, cafwyd bod diffyg llety, addysg a hyfforddiant addas ymhlith y rhwystrau mwyaf sylweddol mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o dderbyn dedfryd mewn dalfa yn eu hwynebu. Yn ôl y TTIau, yn enwedig yn achos dedfrydau byrrach mewn dalfa, mae'n bosib bod argaeledd pecynnau llety â chymorth addas, hyfforddiant ac addysg neu wasanaethau dadwenwyno camddefnyddio sylweddau (yn enwedig o ran camddefnyddio alcohol) wedi dylanwadu ar benderfyniad ynadon neu farnwyr i ddyfarnu dedfryd gymunedol yn hytrach na chyfnod mewn dalfa.

32. Fel y nodwyd, bu gwelliannau sylweddol yn natblygiad llety diogel a chynnydd yn y ddarpariaeth yng Nghymru. Mae YJB yn y broses o ddiweddaru ei strategaeth mannau diogel, a fydd yn destun proses ymgynghori. Wrth lunio'r strategaeth ddiwygiedig, mae YJB wedi gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau ei bod yn cysylltu'n briodol â chynllun cyflawni Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan. Yn arbennig yng nghyd-destun addysg, bydd YJB yn gweithio gyda'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yng Nghymru fel rhan o'r cynllun cyflawni i sicrhau bod addysg briodol yn cael ei rhoi i bob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yng Nghymru; rhoi cynllun gweithredu YJB ar gyfer yr Iaith Gymraeg ar waith i wella'r broses o adnabod anghenion iaith gyntaf, darparu gwasanaethau priodol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r materion ymhlith y gweithlu ac archwilio sut gellir cynnig cyngor ac arweiniad ar Yrfaoedd yng Nghymru mewn sefydliadau, fel y nodwyd uchod. Bydd YJB hefyd yn awyddus i adolygu gweithdrefnau YJB ar gyfer lleoliadau er mwyn ystyried a ddylai'r angen i fod yn nes at eu cartref neu'r angen am gyfathrebu yn y Gymraeg, a dilyniant o ran y cwricwlwm a gyrfaoedd fod yn fwy o flaenoriaeth wrth leoli plant unigol o Gymru.

### I ba raddau mae "agenda hawliau" Llywodraeth Cynulliad Cymru, o ran ei chefnogaeth i blant a phobl ifanc, yn cael ei darparu i blant o Gymru sy'n cael eu cadw mewn mannau diogel?

33. Rydym yn deall yn eglur mai'r sail ar gyfer Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan yw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch hawliau pob plentyn a pherson ifanc.

34. Fel y nodwyd uchod, cyflwynodd YJB yr egwyddorion a'r rhagdybiaethau sy'n hysbysu ei waith ynghylch cyfnodau yn y ddalfa yn ei strategaeth ddiwethaf ar fannau diogel. Wrth gyflawni ei rôl gomisiynu, mae YJB yn ymroddedig i sicrhau defnydd diogel ac effeithiol o gyfnodau yn y ddalfa, ac mae ganddo ymrwymiad clir i hawliau plant a gedwir mewn dalfa. Fel y nodwyd, er ein bod yn cydnabod bod angen gwelliant parhaus, ac ymateb i feysydd penodol sy'n destun pryder, mae YJB o'r farn bod cyfres o welliannau sylweddol wedi digwydd sy'n golygu bod mannau diogel mewn sefyllfa well i ymateb i holl hawliau pobl ifanc.

35. Mae amrywiaeth o waith mewn mannau diogel sy'n cyfateb i'r deg hawl a gyflwynir yn Ymestyn Hawliau. Er enghraifft, yn Parc YOI mae'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn cynnwys dosbarthiadau galwedigaethol ynghyd â chyfranogiad yng ngwobr Dug Caeredin ac mae amrywiaeth o ddosbarthiadau sgiliau sylfaenol i helpu pobl ifanc gyda llythrennedd a rhifedd; mae ymgynghorydd gyrfaoedd a benodwyd gan Gyrfa Cymru yn gweithio'n llawn amser yn yr uned pobl ifanc, ac mae gweithiwr allweddol penodol ar gael i roi cyngor cyffredinol a chefnogaeth i bob person ifanc; gall y bobl ifanc fynd at staff arbenigol megis gweithwyr camddefnyddio sylweddau a staff

gofal iechyd, gan gynnwys canolfan iechyd 24 awr ar y safle (er bod problemau cydnabyddedig gyda'r ddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc, disgwylir gwelliannau'n fuan); fel rhan o'r rhaglen addysg yn y Parc mae dosbarthiadau celf a cherddoriaeth, coginio a chwaraeon/gweithgaredd campfa, ac mae'r bobl ifanc wedi cynhyrchu gwaith celf i'w arddangos ar draws yr unedau ac wedi ennill cymwysterau am eu gwaith; o ran ymgynghori a chyfranogiad, cynhelir cyfarfod o'r fforwm cymunedol bob mis yn yr uned pobl ifanc lle mae rheolwyr yr uned a grŵp bach o bobl ifanc yn cyfarfod i drafod materion sy'n destun pryder, ac mae blwch awgrymiadau ar gael i bobl ifanc godi materion yr hoffent iddynt gael eu trafod yn y cyfarfod.

36. Fel enghraifft arall mae Atodiad C yn cyflwyno'r ddarpariaeth benodol ar gyfer plant o Gymru a gedwir yn Ashfield YOI, gan nodi'r gwelliannau yn y ddarpariaeth honno.

### A oes angen cefnogaeth ychwanegol ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc?

37. Mae YJB yn cydnabod bod llawer agwedd ar amrywiaeth yn gallu dylanwadu ar fynediad i'r system cyfiawnder ieuenctid a chynyddu tebygolrwydd aildroseddu ac eithrio cymdeithasol. Er enghraifft mae llawer iawn o achosion o anghenion dysgu ychwanegol a phroblemau iechyd meddwl ymhlith y plant a'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

38. Rydym yn annog timau troseddau ieuenctid (TTIau) i roi sylw i anghenion plant a phobl ifanc ac yn gofyn eu bod yn gwneud hynny. Rhoddir asesiad manwl unigol i bob person ifanc adeg eu derbyn i'r system cyfiawnder ieuenctid, a dylai'r asesiad hwnnw gael ei adolygu a'i ddiwygio ar hyd eu dedfryd. Dylai'r asesiad hwn arwain at argymell dedfryd briodol, ynghyd â chyflwyno rhaglen ymyrraeth sydd wedi'i theilwra at eu hanghenion. Canlyniad rhaglen asesu ac ymyrraeth gysylltiedig effeithiol yw rhoi sylw i anghenion unigol a materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

39. Ymhellach, rydym yn gofyn bod TTIau, fel rhan o'u cyflwyniadau blynyddol i Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, yn ystyried anghenion amrywiaeth y garfan o blant a phobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Cymhwysir materion amrywiaeth i dair o'r saith adran graidd yng Nghynllun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.

40. Fel y nodwyd uchod, mae YJB wedi adolygu'r ddarpariaeth mewn mannau diogel yn benodol o safbwynt y Gymraeg,. Mae wedi nodi nifer o gamau gweithredu er mwyn datblygu'r ddarpariaeth hon ymhellach, gan gynnwys gwell trefniadau ar gyfer adnabod siaradwyr Cymraeg a chynyddu mynediad i addysg Gymraeg yn y sefydliadau diogel y mae pobl ifanc o Gymru'n tueddu i gael eu lleoli ynddynt. Un cam a gymerwyd eisoes yw bod Ashfield YOI wedi recriwtio i swydd wag y tiwtor Cymraeg a nodwyd yn ystod yr adolygiad.

41. Gwnaed cyflwyniad manwl ar yr ymchwiliad a'i brif argymhellion i Bwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (YJCW) ym mis Ionawr 2009. Mae'r pwyllgor hwn dan gadeiryddiaeth YJB a LlCC ar y cyd, ac yn cynnwys cynrychiolaeth o amrywiaeth o adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r cynllun gweithredu terfynol yn ymgorffori safbwyntiau a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw.

### Pa gamau pellach mae angen eu cymryd i leihau'r defnydd o gyfnodau yn y ddalfa ac i hyrwyddo mesurau heblaw carchariad?

42. Yng nghyd-destun y niferoedd is o bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, mae angen bellach i wneud gwaith mwy dwys gyda'r rhai sydd yn y garfan a allai aildroseddu neu gael eu rhoi mewn dalfa. Trwy fonitro a dadansoddi gwybodaeth y timau troseddau ieuenctid, rydym yn tybio y gallai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol wneud mwy o waith strategol gyda phartneriaethau lleol yn eu hymdrechion i leihau aildroseddu. Rydym yn credu y dylai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a lefel uwch llywodraeth leol roi mwy o flaenoriaeth i waith y TTIau.

43. Mae YJB o'r farn y dylai pwyslais ar fathau eraill o lety cymunedol diogel, megis y maethu dwys a nodwyd uchod, fod yn rhan bwysig o'r dull strategol hwn, fel y dylai llwybrau atgyfeirio clir wedi'u blaenoriaethu i wasanaethau prif ffrwd ac arbenigol, er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o aildroseddu a/neu gael eu rhoi mewn dalfa.

44. Yn unol â'r cynigion y dylai costau cyfnodau yn y ddalfa fod yn fwy 'gweladwy' ar lefel leol, mae Cadeirydd YJB a Chyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth y Cynulliad ar fin ysgrifennu at holl Brif Weithredwyr awdurdodau lleol Cymru i dynnu eu sylw at eu lefelau lleol o gyfnodau yn y ddalfa, nifer y bobl ifanc sydd ganddynt yn y ddalfa, a chostau cyfartalog eu lleoedd.

45. Ar ben hyn mae YJB yn cyflawni amrywiaeth o waith ar y defnydd o gyfnodau yn y ddalfa, ac mae'n croesawu'r ffaith bod Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn gosod Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys a Maethu Dwys fel dedfrydau statudol amgen cadarn, gan gredu bod cyflwyno'r Gorchymyn Ailsefydlu Ieuenctid yn gyfle i hyrwyddo defnydd o ddedfrydau cymunedol ymhellach. Bydd y canllawiau dedfrydu newydd a ddisgwylir eleni gan y Cyngor Canllawiau Dedfrydu ar egwyddorion dedfrydu pobl ifanc yn bwysig o safbwynt gosod cyd-destun ar gyfer penderfyniadau'r dedfrydwyr, yn enwedig wrth gyflwyno'r Gorchymyn Ailsefydlu Ieuenctid newydd.

46. Hefyd eleni bydd YJB a Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi'n mynd ati ar y cyd i adolygu cyhoeddiad YJB yn 2003 "Making It Count In Court" ac yn ystod 2009-10 cyhoeddir fersiwn ddiwygiedig i ddarparu fframwaith arfer da ar gyfer TTIau a gweithwyr proffesiynol eraill yn y llys. Bydd yr arweiniad yn canolbwyntio ar hybu perthnasoedd gweithio effeithiol rhwng TTIau a dedfrydwyr er mwyn meithrin mwy o hyder mewn dedfrydau cymunedol, yn enwedig fel dewis amgen i gyfnod yn y ddalfa.

### Pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer gweithredu a chyflawni darpariaethau sy'n cyfuno swyddogaethau a neilltuwyd a rhai a ddatganolwyd?

47. Fel y nodwyd uchod, mae Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan yn dangos bod YJB a Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i gydweithio i gydlynu'n hymateb i blant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae YJB a Llywodraeth y Cynulliad wedi monitro a

gweithredu'r Strategaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf ac wedi cynnal adolygiad ar y cyd i wella'r dull o'i chyflawni ymhellach. Yn ogystal â sicrhau canlyniadau da o ran lleihau nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, amlder yr aildroseddu a'r gyfran sy'n cwblhau dedfryd mewn dalfa, gwnaed llawer i greu gweithlu cyfiawnder ieuenctid lleol effeithiol a phroffesiynol. Gyda'r trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth, mae YJB yn hyderus y gallwn wella gwasanaethau lleol ymhellach fel rhan o gynllun cyflawni strategol a gweithredol cydlynus i Gymru.

48. Er ei bod hi'n wir y gall cyfuno swyddogaethau a neilltuwyd a rhai a ddatganolwyd greu heriau, mae'n werth nodi bod cyfuno'r elfennau hyn o gyfiawnder ieuenctid yn gallu bod yn heriol yn Lloegr hefyd, lle mae'r un llywodraeth yn gyfrifol am swyddogaethau lles a diogelwch cymunedol. Mae YJB o'r farn y dylai cyfiawnder ieuenctid gyfuno swyddogaethau ac ethos y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (y Bartneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn ac Ymddiriedolaeth y Plant yn Lloegr). Rydym wedi canfod bod rhai agweddau ar y gwaith agos rydym wedi gallu ei wneud yng Nghymru gyda Llywodraeth y Cynulliad wedi arwain at rôl gliriach i'r TTIau nag sy'n bosib yn Lloegr. Gwelir hyn yn yr aliniad rhwng gofynion Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Cadarnhawyd hyn gan i ba raddau yr ymgynghorwyd ag adroddiadau'r TTIau a'u gwneud yn rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

### A ddylid datganoli cyfrifoldeb am fannau diogel i Gymru?

49. Rôl YJB yw monitro a chefnogi gweithrediad effeithiol y system cyfiawnder ieuenctid, ac eraill sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch gweinyddu'r system cyfiawnder ieuenctid o dan y trefniadau llywodraethu a ddatganolwyd neu a neilltuwyd. Mae YJB yn dal yn ymroddedig i gefnogi'r system cyfiawnder ieuenctid er mwyn sicrhau ei bod mor effeithiol â phosib wrth leihau troseddu ac aildroseddu, a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn.

### A oes unrhyw argymhellion penodol y dylid eu hystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwn, yn eich barn chi?

50. Yn ogystal â datblygu dewisiadau cymunedol dwys heblaw cyfnodau mewn dalfa, megis y Maethu Dwys a nodwyd uchod, rydym yn credu mai'r meysydd pwysicaf i'w datblygu o hyd yw'r cysylltiad rhwng gwasanaethau cymunedol a mannau diogel. Byddem yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i ddatblygu gwasanaethau mewngymorth o wasanaethau prif ffrwd i mewn i'r mannau diogel, er enghraifft cyngor gyrfaoedd.

51. Fel y nodwyd, mae mwyafrif y plant a'r bobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid yn destun gorchmynion cymunedol ac ymyrraeth, yn hytrach na chyfnodau yn y ddalfa. Ymhellach, y ffordd orau o leihau'r defnydd o gyfnodau yn y ddalfa yw sicrhau bod ymyrraeth effeithiol ym mhob cam o'r system. Byddai YJB yn cefnogi Llywodraeth y Cynulliad i ddefnyddio'i dylanwad a'i phwysau i annog awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol i ymarfer arweinyddiaeth mor effeithiol â phosib ym maes cyfiawnder ieuenctid, ac yn arbennig i gyfrannu at ymyrraeth i leihau niferoedd y bobl ifanc sydd yn y ddalfa ac yng nghyd-destun y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'u hailsefydlu.

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr**
**Mai 2009**

## Atodiad A - 5 lefel o Ymyrraeth - Dyfyniad o Strategaeth Troseddu Ieuenctid Cymru Gyfan

"Mae 5 lefel bosib o ymyrraeth i ddiffinio'r ddarpariaeth sy'n cael ei datblygu gan bartneriaethau lleol:

1. Ataliol - Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Gweithredu ar boblogaethau cyfan o fewn gwasanaeth cyffredinol cyn bod problemau i'w gweld yn ogystal â gweithredu wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar unigolion a meysydd penodol lle bernir bod perygl o droseddu neu o ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol.

2 Ymyrraeth Gynnar - Plant a phobl ifanc sy'n destun Ceryddon, Rhybuddion Terfynol a Gorchmynion Cyfeirio. Gweithredu wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yng nghyfnodau cynnar eu hymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.

3 Dedfryd Gymunedol - Plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i un o amrywiaeth o gosbau cymunedol y mae angen eu goruchwylio gan TTI. Dull wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn er mwyn ymateb i'r ffactorau risg niferus a chymhleth sy'n golygu bod perygl i blant a phobl ifanc ddioddef canlyniadau gwael.

4 Cyfnod mewn Dalfa - Plant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i gyfnod mewn dalfa. Dylai hyn gynnwys gwaith gyda'r person ifanc yn ystod y cyfnod yn y ddalfa.

5 Ailsefydlu - Mae ailsefydlu pobl ifanc yn effeithiol yn y gymuned wedi cyfnod mewn man diogel yn hanfodol i atal aildroseddu a hybu cynhwysiad cymdeithasol. Mae angen ymateb aml-asiantaeth cydlynus ac amserol sy'n ymdrin yn arbennig â ffactorau llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, i gyflawni trosglwyddiad effeithiol." (tud. 8-9).

## Atodiad B - Ystadegau cefndir

1. Yn 2007/08 adroddodd TTIau fod 11,278 o warediadau (ceryddon, rhybuddion a'r holl orchmynion llys) i blant a phobl ifanc yng Nghymru:

- 4,999 Cerydd a Rhybudd Terfynol
- 3,942 Gorchymyn llys 'haen gyntaf' yn cynnwys Gorchmynion Cyfeirio
-1,959 Dedfryd gymunedol yn cynnwys Gorchmynion Cynllun Gweithredu a Gorchmynion Goruchwylio
- 378 Dedfryd mewn dalfa

2. Mae nifer y bobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa ar unrhyw adeg benodol wedi gostwng yn ystod y pedair i bum mlynedd diwethaf, o uchafswm o 187 ym Mehefin 2004 i 161 ym Mehefin 2008. Y cyfanswm yn Chwefror 2009 oedd 139.

3. Ym mis Mehefin 2001, dim ond 5 y cant o'r bobl ifanc o Gymru yn y mannau diogel i rai o dan 18 oed oedd mewn sefydliadau yng Nghymru. Erbyn Mehefin 2008, roedd y ffigur hwnnw wedi codi i 41 y cant. Ddiwedd Chwefror 2009 roedd yn 50 y cant.

4. Nifer y bobl ifanc o Gymru mewn mannau diogel i rai o dan 18 oed ar 30 Mehefin bob blwyddyn:

| - | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 103 | 150 | 180 | 172 | 187 | 165 | 164 | 162 | 161 |
| **Mannau yng Nghymru** | 11 | 7 | 25 | 25 | 27 | 26 | 42 | 64 | 66 |
| **Mannau yn Lloegr** | 92 | 143 | 155 | 147 | 160 | 139 | 122 | 98 | 95 |
| **% yn y mannau yng Nghymru** | 11% | 5% | 14% | 15% | 14% | 16% | 26% | 40% | 41% |

5. Dadansoddiad o'r boblogaeth oedd yn y ddalfa ym mis Chwefror 2009

| Gwlad y Sefydliad | Chwef 09 |
|---|---|
| Pobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau yng Nghymru | 70 |
| Pobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr | 69 |
| - | - |
| **Oedran** | **Chwef 09** |
| 12 | 0 |
| 13 | 0 |
| 14 | 6 |
| 15 | 19 |
| 16 | 40 |
| 17 | 74 |
| - | - |

| **Rhyw** | **Chwef 09** |
|---|---|
| Benyw | 5 |
| Gwryw | 134 |
| - | - |
| **Ethnigrwydd** | **Chwef 09** |
| Asiaidd | 3 |
| Du | 1 |
| Cymysg | 3 |
| Ddim ar gael | 37 |
| Arall | --- |
| Gwyn | 95 |

### Atodiad C - Y Ddarpariaeth yn Ashfield YOI ar gyfer pobl ifanc o Gymru

O ran y ddarpariaeth i Blant Cymreig a gedwir mewn sefydliadau yn Lloegr, yn ogystal â gofynion arferol y cyswllt, mae Ashfield YOI yn darparu'r gwasanaethau canlynol yn benodol ar gyfer pobl ifanc o Gymru:

- Penodwyd i swydd Cydlynydd Cymraeg, a ddelir ar y cyd, ac mae'r ddau aelod o staff wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg dwys.

- Adeg sefydlu, nodir yr holl bobl ifanc o Gymru gan y Cydlynydd Cymraeg, a fydd yn cynnig dosbarthiadau Iaith a Diwylliant Cymraeg iddynt.

- Darperir un dosbarth iaith ac un dosbarth diwylliant bob wythnos.

- Mae cyfleoedd i gael eu rhyddhau ar Drwydded Dros Dro ar gael i bobl ifanc addas ymweld â mannau o ddiddordeb yng Nghymru, ac mae cyfle newydd i hyfforddi gyda Chlwb Rygbi'r Gweilch yn Abertawe.

- Crëwyd cysylltiadau â Chanolfan Gelf Llantarnum Grange yng Nghwmbrân. Bydd hyn yn golygu bod gwaith celf a wnaed gan y bobl ifanc o Gymru'n gallu cael ei arddangos, ac mae'n fwriad cynnal y sioe gyntaf ym mis Medi 2009. Mae'r ganolfan wedi gwneud cais i amrywiol elusennau am arian er mwyn i artistiaid preswyl fedru gweithio gyda'r bobl ifanc o Gymru ac eraill sydd â diddordeb ar brosiectau yn Ashfield.

- Mae cwrs 'Cynhwysiad Cymdeithasol' llwyddiannus gan Elusen y Bobl wedi cael ei estyn i grŵp Cymreig penodol. Dechreuodd y cynllun peilot ar 6 Ebrill, a bydd yn cael ei werthuso ar ddiwedd y modiwl deuddeg wythnos.

- Wrth adael Ashfield rhoddir mwg a cherdyn sy'n dwyn manylion cyswllt Cydlynwyr Cymru i'r bobl ifanc, a gwneir cysylltiadau â darpariaeth brif ffrwd megis Gyrfa Cymru/Cymru Ddiogelach. Mae Ashfield yn dechrau creu cysylltiadau agosach â rhai TTIau allweddol yng Nghymru, er enghraifft, mae TTI Rhondda Cynon Taf wedi penodi gweithiwr yn arbennig i weithio gyda phobl ifanc yn Ashfield.